Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y dilyniant: gwelliant â ffocws

**Cylch Meithrin Porthmadog**
**Festri St Ioan**
**Ffordd Penamser**
**Porthmadog**
**LL49 9PA**

**Dyddiad yr ymweliad: Mai 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Maldwyn Pryse | Arolygydd Cofnodol |
| Sheila Birkhead | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Cylch Meithrin Porthmadog wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â’r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym mis Mai 2014.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu Cylch Meithrin Porthmadog oddi ar y rhestr o leoliadau y mae angen gwelliant â ffocws arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Datblygu medrau datrys problemau y plant, yn arbennig y plant mwyaf galluog

Cynnydd cryf wrth fynd i’r afael â’r argymhelliad

Mae’r ymarferwyr wedi dechrau rhoi sylw i ddefnyddio syniadau am weithgareddau syml i ddatblygu medrau datrys problemau’r holl blant yn gyson. Enghraifft dda o hyn yw dyfalu sut i adeiladu tŷ i Jac y Jwc.

Mae cyfarfodydd wythnosol yr ymarferwyr yn rhoi sylw priodol i drafod dulliau effeithiol o holi plant, a rhoi cyfleoedd addas iddynt feddwl. Er bod datblygu medrau datrys problemau’r plant yn cael ei gynnwys yn rheolaidd fel ffocws yng nghynllun cyfoethogi’r ddarpariaeth ar ddechrau pob tymor, nid yw’n cael digon o sylw yn y cynlluniau wythnosol ac mae tuedd gan y staff i or-arwain y sesiynau. Mae hyn yn lleihau cyfleoedd i’r plant ddatrys problemau eu hunain.

Mae’r lleoliad wedi cael nifer o ymweliadau cefnogi priodol i roi arweiniad i’r ymarferwyr ar sut i gynllunio gweithgareddau er mwyn ymestyn plant mwy galluog. Mae hyn wedi codi ymwybyddiaeth yr ymarferwyr am yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella hyn. Ar y cyfan, mae’r ymarferwyr yn adnabod angenion y plant yn dda, ac o ganlyniad i’r ymweliadau cefnogi, maent yn dechrau nodi’r camau nesaf ar eu cyfer yn reddfol. Er enghraifft, maent yn ymestyn plant trwy roi cyfleoedd iddynt ddechrau adnabod rhifau a llythrennau yn briodol.

### Argymhelliad 2: Gwella’r cynllunio trwy gynnwys pob ymarferwr yn y broses a sicrhau bod y tasgau ffocws yn glir ac wedi eu datblygu’n drylwyr

Cynnydd cryf wrth fynd i’r afael â’r argymhelliad

Yn dilyn cefnogaeth ddwys gan yr awdurdod lleol, mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth briodol o sut i gynllunio’n effeithiol. Trwy lynu at yr arweiniad hwnnw, mae ymarferwyr yn cydweithio, gan ganolbwyntio’n briodol ar gynllunio tasgau torfol effeithiol sy’n arwain at ddatblygu medrau personol a chymdeithasol y plant yn llwyddiannus. Mae’r tasgau hyn yn arwain at gynllunio gweithgareddau buddiol ar gyfer tasgau ffocws fel cyfatebu lluniau a pheintio efo blodau er mwyn annog y plant i adnabod lliwiau.

O ganlyniad, mae’r cynllunio yn fwy trylwyr ac yn nodi pa ddarpariaeth sy’n barhaus, beth yw’r gweithgaredd ffocws a phwy sy’n gyfrifol am dasgau penodol ym mhob sesiwn. Mae’r arweinydd a’r pwyllgor bellach yn cynnal cyfarfodydd staff yn gyson i

drafod y cynllunio tymor byr, sy’n cynnwys prif amcanion y gweithgareddau. Yn sgil hyn, mae’r staff yn fwy ymwybodol o bwrpas y gweithgareddau ac yn rhannu hyn yn effeithiol gyda’r plant ar ddechrau’r sesiynau.

Datblygiad diweddar yw cynllunio gwaith pwrpasol ar gyfer galluoedd gwahanol. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn cychwyn sicrhau bod y plant mwyaf galluog yn cael eu hymestyn yn briodol.

**Argymhelliad 3: Cryfhau’r broses asesu trwy gynnwys yr holl staff, a defnyddio’r wybodaeth a gesglir i fwydo’r cynllunio er mwyn symud y plant ymlaen**

Cynnydd cryf wrth fynd i’r afael â’r argymhelliad

Mae’r lleoliad wedi ymateb yn gadarnhaol i arweiniad pwrpasol maent wedi ei dderbyn gan yr awdurdod lleol ar wella’r drefn asesu ac, yn benodol, ar sut i nodi’r camau nesaf yn natblygiad pob plentyn. Drwy gwblhau asesiadau cychwynnol yn ystod y chwe wythnos gyntaf ym mis Medi, mae ymarferwyr bellach yn dechrau adnabod cryfderau’r plant a’r agweddau sydd angen eu datblygu ymhellach. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar brosesau asesu’r lleoliad.

Mae’r broses asesu bellach yn cynnwys yr holl ymarferwyr. Maent oll yn gwneud sylwadau buddiol mewn llyfr pwrpasol yn ddyddiol. Maent yn nodi’r pethau arwyddocaol y mae plentyn wedi eu gwneud neu eu dweud, yn rhannu hyn yn y cyfarfodydd wythnosol ac yn cychwyn nodi sut i adeiladu ar hyn. Mae’r staff yn datblygu dealltwriaeth gynyddol o ddadansoddi’r arsylwadau a nodi camau nesaf ar gyfer y plant.

Mae’r arweinydd yn penodi’r meysydd penodol y mae angen i bob plentyn ddatblygu ynddynt bob hanner tymor. Mae hyn yn sicrhau bod pob plentyn yn derbyn sylw adeiladol i’w alluogi i ddatblygu’n briodol mewn maes arbennig fel, er enghraifft, ddatblygiad cymdeithasol neu ieithyddol.

**Argymhelliad 4: Sicrhau defnydd cyson o’r ardal tu allan er mwyn sicrhau cyfleoedd addas i’r plant i ddatblygu’n gorfforol ac i gyfoethogi eu profiadau**

Cynnydd cryf wrth fynd i’r afael â’r argymhelliad

Mae’r lleoliad wedi cydweithio’n effeithiol ag aelodau’r eglwys er mwyn datblygu’r ardal allanol i ymestyn a chyfoethogi profiadau’r plant. Maent wedi buddsoddi mewn offer storio a ffens ddiogelwch er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn ddiogel ac o fewn cyrraedd y plant. Mae’r ymarferwyr wedi datblygu’r ddarpariaeth i gynnwys cyfleoedd buddiol i ymestyn medrau plant, er enghraifft wrth greu marciau gyda sialc, rheoli beic a phlannu planhigion.

Mae’r ymarferwyr wedi dechrau cynllunio’n fwriadus ar gyfer dysgu yn yr awyr agored trwy ddarparu amserlen wythnosol sy’n adnabod cyfleoedd dyddiol i ddefnyddio’r ardal hon. Er nad yw’r arferion cynllunio wedi’u gwreiddio’n llwyr eto yng ngwaith y lleoliad, mae’r plant yn cael cyfleoedd perthnasol i ddatblygu’n gorfforol a phrofi gweithgareddau i gefnogi gwaith thematig. Mae cyfleoedd i blant fynd allan a defnyddio’r ardal leol i gefnogi gwaith thema fel yr Hydref, y tywydd a’r Nadolig yn datblygu’n llwyddiannus.

**Argymhelliad 5: Datblygu rôl strategol y pwyllgor rheoli fel eu bod yn hollol ymwybodol o'u dyletswyddau**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae aelodau'r pwyllgor rheoli wedi derbyn cefnogaeth effeithiol gan yr awdurdod lleol i'w galluogi i weithredu'n fwy strategol. Maent hefyd wedi derbyn hyfforddiant buddiol i ddeall y cyfrifoldebau sydd ganddynt fel pwyllgor ac mae hyn wedi eu harfogi'n dda ar gyfer y gwaith. O ganlyniad, mae gallu'r pwyllgor rheoli i roi cyfeiriad strategol i'r lleoliad wedi gwella ac maent yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar rediad a gweithdrefnau'r lleoliad. Enghraifft dda o hyn yw'r ymweliadau cyson i fonitro'r ddarpariaeth.

Mae aelodau'r pwyllgor bellach yn ymweld â'r lleoliad yn gyson, gan gynnal trafodaethau gyda'r staff a derbyn gwybodaeth uniongyrchol er mwyn monitro cynnydd y lleoliad yn erbyn argymhellion yr arolygiad craidd. Mae'r pwyllgor wedi sicrhau amser digyswllt i'r arweinydd gynllunio ac asesu. Bellach, mae trefniadau pwrpasol yn eu lle i'r arweinydd a phob ymarferwr fod yn rhan o drefniadau rheoli perfformiad addas er mwyn gosod amcanion ar gyfer gwella. O ganlyniad, mae dealltwriaeth yr ymarferwyr o'u rolau a'u cyfrifoldebau yn cryfhau. Fodd bynnag, nid yw rôl y person cyfrifol wedi datblygu'n llawn.

Mae aelodau'r pwyllgor wedi ymateb yn llwyddiannus i adroddiad diweddaraf Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar y lleoliad. Mae hyn yn dangos gallu'r pwyllgor i weithredu'n strategol ac i ymateb i'w cyfrifoldebau. Mae'r arweinwyr hefyd wedi llwyddo i sicrhau lleoliad newydd parhaol ar gyfer y cylch.

**Argymhelliad 6: Sicrhau bod y broses hunanarfarnu yn fwy cynhwysol ac yn adnabod yr agweddau i'w gwella yn fwy trwyadl**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, mae'r arweinydd wedi mynychu hyfforddiant sirol ar hunanarfarnu. Mae hyn wedi gwella ei dealltwriaeth o brosesau ar gyfer gwella ansawdd. O ganlyniad, mae wedi datblygu amserlen benodol er mwyn sicrhau bod pob agwedd yn cael sylw. Mae effaith yr hyfforddiant yn dechrau dwyn ffrwyth ac mae'r pwyllgor rheoli yn rhan o'r broses hunanarfarnu. Bellach, mae'r arweinwyr yn datblygu dealltwriaeth briodol o brif nodweddion hunanarfarnu. Maent yn ymateb yn fwy arfarnol ac yn adnabod y materion sydd angen eu datblygu ymhellach. Er enghraifft, gwella'r ddarpariaeth ar gyfer rhifedd a chynnwys mwy o gyfleoedd i'r plant chwarae rôl.

Mae'r broses hunanarfarnu bellach yn drylwyr ac mae'r pwyllgor rheoli yn derbyn adroddiadau priodol yn rheolaidd gan yr arweinydd. Maent yn trafod cynnydd yn erbyn yr argymhellion gyda'r arweinydd yn ystod ymweliadau wythnosol. O ganlyniad, mae gan aelodau'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth gadarn o'r cynnydd neu'r diffyg cynnydd a wnaed. Gan mai datblygiad cymharol ddiweddar yw'r gwelliant yn y broses hunanarfarnu, nid yw eto wedi cael digon o amser i wreiddio'n llwyr yng ngwaith y lleoliad.

Mae'r pwyllgor wedi ymateb i'r materion pwysig sy'n cael eu hadnabod yn adroddiad diweddar Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Mae hyn yn cryfhau gallu'r pwyllgor i adnabod yr agweddau i'w gwella yn drwyadl a'u monitro.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai Cylch Meithrin Porthmadog barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi'i wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud rhagor o gynnydd.